

# Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Llawn am 7pm. Nos Iau 14eg o Chwefror 2019 Yng Nghanolfan Glasinfryn

## Agenda

Gweddi

Presennol / Ymddiheuriadau

Cod Ymddygiad

Cyflwyniad gan Tomos Hughes Cydlynnydd Diffibrilia Gog Cymru

Cofnodion 10fed o Ionawr 2019

Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid

- Adroddiad o'r IBC 30/01/19
- TAW ag ad-daliad NDR
- Agor ail gyfrif banc
- Ceisiadau Ad 137
  - *Mudiad Ffermwyr Ifanc*
  - Ymddiriedolaeth Gofalwyr
  - Tenovus
  - Theatr Bara Caws
- Taliadau
  - Cyflog Mis 9 Rhagfyr a Mis 10 Ionawr £443.00 x 2
  - HMRC Mis 9 a 10 £110.80 x 2
  - G Williams (tyrchod) Dal tyrchod (amcanbris £150) ??
  - Gamlins Gwaith Canolfan Penrhos £945.00 + TAW
- Traelia Cynghorwyr £1,134.00

Ceisiadau Cynllunio diweddar ardal Pentir

- C19/0087/25/R3 Dymchwel Canolfan Penrhosgarnedd ac adeiladau canolfan cymundeol newydd ac ehangu Ysgol y Faenol, ffordd mynediad newydd ynghyd a maes parcio, LL572NN

Materion y Clerc

- Gohebiaethau
  - Giat y Fynwent
  - Llwybrau'r Fynwent Cytuno ar Gontractwr
  - Hysbysfyrdd Ysbyty Gwynedd
  - Biniau Halen
  - Prydles Canolfan Penrhos
  - Traelia Cynghorwyr
  - Unllais Cymru Ymaelodi

Materion y Cynghorwyr

Cyng James Griffiths

Cyflwr wyneb y ffordd o hen eglwys Glasinfryn i'r groeslon Waen Wen. Mae safon y ffordd bellach yn ddirifol. Sbwriel ar y ffordd

Cyng L James

Cytundeb Data Cwmni Delwedd

Cyng C E Hughes

Tir Comin Pentir a blodau Gwyllt

# Cyngor Cymuned Pentir

**Cofnodion Cyngor llawn gynhaliwyd Nos Iau 10<sup>fed</sup> o Ionawr 2019 yn Eglwys Sant Pedr am 7pm**

## **Presennol:**

Y Cyng. D W Jones, M. Lynch, C Hughes, D Jones-Morris, B Jones, M Baines, L James a James Griffiths  
E Jones (Clerc)

## **Ymddiheuriadau:**

Y Cyng, J Pierce, T Anwyl-Williams, R Jones a H. Griffiths

## **Cadeirwyd ac offrymwyd gweddi gan Cyng Cynrig E Hughes.**

Yn ei sylwadau agoriadol croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol gan ddymuno hefyd Flwyddyn Newydd Dda i bawb.

## **Côd Ymddygiad**

Atgoffwyd pawb o'n côd ymddygiad a'r angen i ddatgan buddiant os cyfyd yr angen

## **Cofnodion 8fed o Tachwedd**

Cyng B Jones yn cynnig eu bod yn gofnod cywir a'r Cyng D Jones-Morris yn eilio

## **Materion yn codi o'r cofnodion**

Ein Cwmni Yswiriant yn holi am fanylion perchnogaeth muria'r fynwent ynghyd a prisiau ar gyfer yswiriant

'Roedd hyn yn sgil ein cais ynglyn a'r difrod i giat y fynwent ag ymweliad 'loss adjuster' a'r safle Datganwyd fod y safle yn fler a bod angen atgyweirio y pilar cerrig a'r wal o'r pilar hwnnw i'r giat fochyn Cytunwyd i'r Clerc ddweud wrth y contractwr i gychwyn ar y gwaith er nad oedd y Cwmni Yswiriant wedi rhoi eu sel bendith eto.

Argymell holi am bris 'sandblastio' ar y giatia

## **Cytunwyd i'r Clerc holi**

Holi Gamlins i geisio darganfod perchnogaeth y waliau a pryd ddaeth y Capel yn 'eiddo' Cyngor Pentir Adroddwyd fod 'camera cyflymder ceir' wedi ei osod ar ol ein cais am sribedi cyflymder ar yr A4244 ym Mhentir. Cafwyd ar ddeallt fod cyfartaledd cyflymder o 58 mya yn yr ardal hwn a fod Cyngor Gwynedd wedi adrodd hynny i'r Heddlu gan argymell fod y Van 'Gan Bwyll' yn ymweld a'r llecyn yma o'r ffordd. Un contractwr oedd wedi ymweld i brisio tarmacio'r Llwybrau on wedi gofyn i dri.

Heb gael yr un pris ond efallai oherwydd prysurdeb y gwyliau

Dim diweddariad ynglyn a chais Cyngor Gwynedd am grant Meithrin at ddatblygiad Ysgol y Faenol fyddai os yn llwyddianus yn haneru cyfraniad Cyngor Cymuned Pentir tuag at y Ganolfan Gymunedol newydd

## **Clerc i holi os oedd angen trefnu ail-gyfarfod hefo Dafydd Gibbard**

## **Adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid**

- Adroddiad o'r IBC 28/11/18 dosbarthwyd cofnodion gan nodi nad oeddent wedi eu derbyn yn gywir tan yr IBC nesaf fyddai ymlaen ddiwedd Ionawr
- BDO Cadarnhad BDO iddynt fod wedi cwblhau eu archwiliad
- Ceisiadau Nawdd
- Cymeradwywyd yr argymhelliad i gyfranu £300 i Clwb y Garnedd a chyflwyno Sic i Contact the Elderly ar eu rhan.

Llythyr wedi ei dderbyn o **Abbey Road** yn edrych am gyfraniad. Ar gymhelliad yr IBC y clerch wedi anfon llythyr atynt yn eu gwahodd i wneud cais a cynnwys Mantolen ariannol **Ddaeth dim ymateb yn ol**

**Taliadau** Cytunwyd talu a ganlyn D W Lewis Torri Mis Tachwedd £320.00 Cyflog a Treth Incwm Mis 8 Hydref £443.00 a £110.80 Lleng Brydeinig 2 Dorch Sul y Cofio £ 40.00 Gas Safe Profion Nwy Uned 15 £ 60.00 Snowdonia Fire Protection Profion Larwm Tan Uned 15 £143.76 Gareth Hughes Trwsio To'r Capel a Fainc y Fynwent £95.68 a J D Gardening £300.63 a £75.00 am llau/chwystrellu Cae Chwarae Caerhun

**Derbynebion** Dim i law

**Llywodraethu/Polisiau a.y.y.b.**

Adroddoddwyd fod peth pryder ynglyn a gweithrediad y Cyngor a rhai aelodau ynghyd a'r Cadeiryddion yn anghyfforddus ynglyn ag ambell ddigwyddiad yn ddiweddar. Pryderai rhai nad oedd ein Rheolau Sefydlog efallai yn hollol glir ar 'God Ymddygiad' 'Datgan Buddiant' GDPR ag yn y blaen. Trafodwyd a ddylid cael is-bwyllgor i edrych yn ar ein holl bolisiau yn eu tro – eu gwiro – addasu os oes angen a'i ail-mabwysiadu.

'Roedd y Cadeirydd wedi cysylltu ag Unllais Cymru ond eto'n teimlo nad oedd wedi derbyn ateb ystyrllon a rhy ben agored

Er mwyn cael eglurder ar hyn cytunwyd i ddirprwyaeth ofyn am gyfarfod a Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd.

**Fel Cadeirydd y Cyngor cytunodd Cyng C. Hughes i drefnu hynny**

**Cynhalwyd Cyfarfod arbennig o'r Is-Bwyllgor Cyllid ar y Sed o Rhagfyr yn Eglwys Sant Pedr**

Cyfarfod oedd hwn yn dilyn cyfarfod rhwng y Cadeirydd Cyng C Hughes Cyng D Jones-Morris a'r Clerc hefo Shon Hughes Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol Cyngor Gwynedd)

Pwysleiswyd bwysicrwydd fod ein Rheolau Sefydlog yn yn hyfyw ac i bwrpas ag y dylai ein polisiau gael ei adolygu a'i addasu yn rheolaidd.

Mae **Cod Ymddygiad** yr un mor berthnasol mewn cyfarfodydd ag oedd tu allan i gyfarfodydd.

Dylai pob Cynghorydd arwyddo i'r Cod Ymddygiad yn ystod ei gyfarfod cyntaf o'r Cyngor

Ynglyn a **Datgan Buddiant** esbonwyd fod gwahanol lefel o ddatgan buddiant

Sef Buddiant personol ar un llaw - a buddiant personol a rhagfarnol ar y llaw arall

Os oes gan berson neu berthynas agos gyswllt personol a mater dan sylw dylid datgan buddiant personol a chwblhau'r ffurflen briodol

Os oes datganiad o fuddiant personol a rhagfarnol ynglyn ag eitem ar yr Agenda ag aelod o'r cyhoedd yn ymwybodol o'r buddiant – onibai fod eithriad – ble gall aros siarad a pleidleisio

**Ni ddylai'r person yn datgan y buddiant hwnnw gymeryd rhan mewn unrhyw ran o'r drafodaeth a dylai adael y cyfarfod**

Os yw person wedi ei ethol i gynrychioli Cyngor ar unrhyw gorff yna nid oes angen datgan buddiant

Cyfrifoldeb yr unigolyn i'w datgan buddiant a chwblhau'r ffurflen briodol ar gyfer hynny.

Rhanwyd siart oedd y Clerc wedi ei dderbyn oddiwrth Unllais Cymru yn amlinnellu'r cyfarwyddiadau y dylid eu dilyn. **Uniaith Saesneg oedd y Siart a gofynwyd iddo edrych os oedd fersiwn gymraeg ar gael**

Cydnabuwyd fod angen sefydlu grwp i edrych drwy holl bolisiau'r Cyngor a'i Rheolau Sefydlog  
**Cytunodd Cyng Dafydd Jones-Morris i gadeirio'r Grwp**

**Ceisiadau Cynllunio**

- C18/1106/25/LL Ysgol Treborth, Treborth, Bangor, Gwynedd, LL572RX  
Addasu adeiladau allanol segur i ddarparu llety myfyrwyr

**Gwrthwynebu**

**Materion y Clerc**

- Gohebiaethau
  - Giat y Fynwent Nodwyd eisioes yn materion yn codi
  - Llwybrau'r Fynwent Nodwyd eisioes yn materion yn codi
  - Maes Parcio'r Fynwent 'Roedd yn Clerc wedi derbyn cais gan un o'r trigolion sy'n byw dros y ffordd i'r maes parcio os oedd posib cael defnyddio'r maes parcio at

- ddigwyddiad preifat. 'Roedd y Clerc wedi cysylltu ar e-bost hefo'r Cynghorwyr gan nad oedd cyfarfod cyn y digwyddiad. Tra cytunwyd ar e-byst o ran diogelwch ganiatau defnydd byddai angen ei drafod yn y cyngor llawn nesaf (heno) **Cytunwyd i'r Grwp Polisiau edrych at sefydlu polisi a chanllawiau ar gyfer defnydd cymunedol/preifat**
- Hysbysfyrdd Ysbyty Gwynedd Mae saga yr hysbysfwrdd yma yn rhygnu mlaen. Y clerch yn cael Valerie Harries ar y ffon bob tro ond y Cyntractwr D E Williams yn methu cael gafael arni i gytuno diwrnod. Y Contractwr ddim wedi bod yn dda ei iechyd ers rhyw fis.
  - Biniau Halen Dim i'w ychwanegu o ochr cyflenwi na prisio ond y Clerc wedi cael ar ddeallt o Gyngor Cymuned arall mae £182 ydi pris derbyn gosod a llenwi biniau ychwanegol. Pawb o blaid fod y Cyngor am brynu 5 bin ychwanegol eleni gan osod 1 yn Rhosfryn ag un yn Coed y Maes yn ogystal a 3 ar Lon Fodolydd. **Clerc i drefnu**
  - Prydles Canolfan Penrhos / Ysgol y Faenol  
Datganodd Cyng M Baines ddiddordeb cwblhau ffurflen a gadawodd yr ystafell Dim ateb wedi dod ynglyn a cais Gwynedd am y grant meithrin fel nodwyd yn Materion yn codi. Dychwelodd Cyng M Baines i'r ystafell
  - Traelia Cynghorwyr Atgoffwyd pawb fod yna swm o £1800 wedi ei neilltuo yn y Praesept ar gyfer traelia sef £150 y pen. Mater i'r Cynghorydd unigol ag yn gyfrinachol yw derbyn neu wrthod y taliad
  - Daeth rhybudd fod Graddfa Cyflog y Clerc newid yn Mis Ebrill
  - Gamlins Dim datblygiad parthed y prydlesi - angen trefnu cyfarfod Infois wedi cyrraedd am eu gwaith

#### Materion y Cynghorwyr

Cyng James Griffiths Cyflwr wyneb y ffordd o hen eglwys Glasinfryn i'r groeslon Waen Wen.

Mae safon y ffordd bellach yn ddifrifol. **Clerc i Gysylltu a Cyngor Gwynedd**

Ynglyn a Thyn Ffridd. Fel y gwyddoch y mae nifer o dai ar safle T Ff a phob un hefo rhif o dan y cyfeiriad Waen Wen Cottages, Tyn Ffridd. O ganlyniad i hyn fe ddaw llythyrau a pharseli i dai Waen Wen 3 Waen Wen gan fod y Cottages wedi cael ei adael Oes posib codi!r mater yma hefo Swyddfa!r Post iddynt ddwyn perswad ar berchnogion Tyn Ffridd i newid cyfeiriad y tai o Waen Wen Cottages i Tyn Ffridd Cottages

Cyng M Baines

#### **Clerc i Gysylltu a'r swyddfa bost**

Cae Chwarae Ffordd Cynan Er gwybodaeth

Adroddwyd fod grwp yn awyddus i weld y cyfleusterau yma yn cael ei ehangu/uwchraddio a'i bod yn gweithio hefo'r grwp hwnnw

Cyng Dafydd Jones-Morris

Gwahodd Tomos Hughes ynglyn a Diffibs

Bin Sbwriel wrth Ysbyty Gwynedd wedi cael ei wthio drosodd

#### **Clerc i Gysylltu a Cyngor Gwynedd**

Cyng B Jones

Ail gyfeirio at Allotan Crescent a'i ymholiad am ddrych dros y ffordd i'r cyffordd hefo ffordd Penrhos. Clerc wedi cysylltu hefo'r adran drafnidiaeth ag o'r farn eu bod wedi ymweld a'r safle.

Clerc i holi ymhellach

Palmentydd tyllog yn Coed y Maes Gwyndy a Tregaeon

#### **Clerc i Gysylltu a Cyngor Gwynedd**

Yn gyffredinol datganwyd pryderon ynglyn a parcio yn ardal Penrhosgarnedd a Cyng M Baines yn y broses o drefnu/mynychu cyfarfodydd yn ymdrin a hyn

Daeth y cyfarfod i ben 9.25

Cyfarfod nesaf Nos Iau 14eg o Chwefror